Prifysgol Wrecsam
Wrexham University

# HYSBYSIAD PREIFATRWYDD AR GYFER CYN-FYFYRWYR PRIFYSGOL WRECSAM

Mae'r Hysbysiad hwn yn esbonio sut y bydd y Brifysgol, drwy ei Chyn-fyfyrwyr a'r Tîm Cyfathrebu, Marchnata, Recriwtio a Derbyn, yr Adrannau a'r Ysgolion, yn casglu ac yn defnyddio eich data personol ar gyfer gweithgareddau cyn-fyfyrwyr a gweithgareddau datblygu.

Drwy gydol yr hysbysiad hwn, mae "Prifysgol", "rydym", "ein" a "ni" yn cyfeirio at Brifysgol Wrecsam. Mae "chi" ac "eich" yn cyfeirio at Gyn-fyfyrwyr y Brifysgol, ynghyd ag unigolion sy'n gysylltiedig â gweithgareddau cyn-fyfyrwyr a datblygu.

Ni yw'r rheolydd data ar gyfer data personol yr ydym yn ei brosesu amdanoch chi.

Mae'r hysbysiad hwn yn cydymffurfio â'r gofynion o dan y Ddeddf Diogelu Data (DPA) a Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data y DU (UKGDPR)

**Ymrwymiad y Brifysgol i Gyn-fyfyrwyr**

Wrth gofrestru fel myfyriwr yn y Brifysgol, bydd unigolion yn dod yn aelod o'r Briyfysgol yn awtomatig ac, yn y mwyafrif o achosion, byddant yn sgil hynny yn dod yn rhan o gymuned cyn-fyfyrwyr y Brifysgol. Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau i'w chyn-fyfyrwyr, ac mae'r ymrwymiad hwn nawr wedi'i ymgorffori'n ffurfiol yn y cytundeb myfyriwr. Mae'r brifysgol yn ystyried y gwasanaethau hyn yn agwedd hanfodol a pharhaus o'i hymrwymiad hirdymor i'w myfyrwyr.

Ewch i https://wrexham.ac.uk/cy/cyn-fyfyrwyr/ am ragor o wybodaeth.

**Pa wybodaeth ydym yn ei dal?**

Rydym yn dal amrywiaeth o ddata personol amdanoch chi, gyda pheth ohono'n cael ei ddarparu gennych chi yn uniongyrchol a pheth ohono'n cael ei roi i ni gan drydydd partïon.

**O ble mae'r Brifysgol yn cael eich data personol?**

- Drwy drosglwyddiad o gronfeydd data myfyrwyr canolog a lleol y Brifysgol (os oeddech yn fyfyriwr) i'r gronfa ddata cyn-fyfyrwyr yn dilyn graddio.
- Pan wnaethoch chi gofrestru ar gyfer Cyn-fyfyrwyr Wrecsam Ar-lein.
- Pan wnaethoch chi ddarparu gwybodaeth drwy un o'n gwefannau e.e. Moodle, Cylchlythyrau, ceisiadau Gwirfoddoli, neu Roddion.
- Pan wnaethoch chi gwblhau a dychwelyd arolygon neu ffurflenni ymateb megis ffurflenni dewisiadau cysylltu neu ffurflenni Rhodd Cymorth.
- Pan wnaethoch chi gofrestru i fynychu digwyddiad oedd yn gysylltiedig â chyn-fyfyrwyr.
- Gan ffynonellau trydydd parti, gan gynnwys sefydliadau sy'n cefnogi'r Brifysgol i gyflawni ei dibenion penodol, yn ogystal â deunydd sydd ar gael yn gyhoeddus megis erthyglau yn y cyfryngau, ffeiliau corfforaethol ac elusennol, postiadau cyfryngau cymdeithasol, a ffynonellau agored eraill gan gynnwys cynnwys sydd ar gael drwy'r rhyngrwyd.

**Dyma rai enghreifftiau o fathau o ddata personol y gallem fod yn ei ddal:**

- Eich enw, teitl, dyddiad geni, rhywedd, a chenedligrwydd;
- Manylion cyswllt (cyfeiriad, cyfeiriad e-bost a rhif ffôn);
- Hanes addysg pan oeddech chi'n fyfyriwr ym Mhrifysgol Wrecsam;
- Ysgoloriaethau a Bwrsariaethau a ddyfarnwyd i chi;
- Manylion cyflogaeth a gweithgareddau proffesiynol;
- Eich diddordebau pan oeddech yn fyfyriwr ynghyd â'ch diddordebau cyfredol;
- Manylion teulu a gŵr neu wraig/partner, a'ch perthynas gyda chyn-fyfyrwyr eraill, cefnogwyr, cyfeillion ac aelodau cyswllt;
- Hanes unrhyw roddion i'r Brifysgol a statws Cymorth Rhodd, lle bo'n berthnasol (fel y mae'n ofynnol gan CThEF);
- Gwybodaeth am eich cyfoeth;
- Gwirfoddoli a wnaed gennych chi ar ran y Brifysgol;
- Gwybodaeth am eich perthynas gyda'r Brifysgol;
- Gwybodaeth am eich defnydd chi o adnoddau neu gyfleusterau'r Briyfsgol (e.e. y Llyfrgell);
- Eich presenoldeb mewn seremonïau graddio;
- Erthyglau yn y cyfryngau amdanoch chi;
- Gwybodaeth er mwyn ein helpu ni i wella effeithiolrwydd ein cyfathrebiadau gyda chi.

**Sut ydym yn defnyddio eich gwybodaeth a pham?**

Byddwn yn defnyddio eich data er mwyn ein helpu ni i gynnal cymuned o gyn-fyfyrwyr cysylltiedig ac er mwyn rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf gyda chi am gyfleoedd fel eich bod yn gallu parhau i gymryd rhan ym mywyd a gweithgareddau'r Briyfsgol, gan gynnwys cyfleoedd i astudio ymhellach.

Efallai y byddwn hefyd yn prosesu eich data personol at y dibenion canlynol.

- Anfon cyhoeddiadau a Chyfathrebiadau'r Brifysgol (e.e. cylchlythyrau neu arolygon);
- Hysbysiadau ynghylch digwyddiadau neu aduniadau cyn-fyfyrwyr;
- Cofrestru ar gyfer digwyddiad;
- Hyrwyddo cyfleoedd codi arian;
- Hyrwyddo cyfleoedd i wirfoddoli;
- Hyrwyddo cyfleoedd i astudio ymhellach.

**Beth yw'r Sail Gyfreithlon ar gyfer prosesu eich data?**

| Sail Gyfreithlon ar gyfer Prosesu | Rhesymeg pam mae data'n cael ei brosesu dan y Sail Gyfreithlon hon |
|---|---|
| Caniatâd | Mewn amgylchiadau penodol, gall prosesu ddigwydd ar sail eich caniatâd. |
| Cytundeb | Cofrestriadau ar gyfer digwyddiadau, rhoddion, Cylchlythyrau a materion cysylltiedig eraill. |
| Rhwymedigaeth Gyfreithiol | Darparu data i asiantaethau statudol a rheoleiddiol. |
| Tasg Gyhoeddus | Er mwyn hyrwyddo amcanion elusennol y Brifysgol sy'n darparu budd amlwg i'r cyhoedd ac i gymdeithas. |

| | |
|---|---|
| Buddiant Dilys | Mae cael rhwydwaith cyn-fyfyrwyr ymgysylltiedig yn cefnogi ac yn gwella'r Brifysgol. |

**Pwy sy'n gallu gweld eich data a chyda phwy fydd y data'n cael ei rannu?**

Bydd eich data'n cael ei ddal yn ddiogel gan y Brifysgol. Caiff mynediad ei reoli'n gaeth a bydd staff y Brifysgol yn cael hyfforddiant ar ddiogelu data.

Yn ogystal â defnyddio trydydd partïon i gynorthwyo gyda chynnal cywirdeb data personol, gall y Brifysgol, at bwrpas gwella ffwythiant y system ac effeithlonrwydd gweithredol, benodi arbenigwyr TG allanol i gefnogi'r gwaith o ddatblygu ei systemau. Mae'n bosib y bydd yr arbenigwyr hyn yn cael mynediad at ddata personol sy'n llwyr gyfyngedig i'r hyn sy'n angenrheidiol er mwyn cyflawni eu tasg benodedig. Bydd yr holl unigolion o'r fath yn gweithredu dan gyfarwyddiadau penodol y Brifysgol ac maent wedi'u rhwymo'n gytundebol i gadw cyfrinachedd. Lle mae angen storio data dros dro neu gael mynediad dros dro at ddata, rhaid i ddata o'r fath gael ei ddal yn ddiogel, ei ddefnyddio at y pwrpas y cytunwyd arno yn unig, ei gadw ond am y cyfnod sy'n angenrheidiol er mwyn cyflawni'r pwrpas hwnnw, ac yn dilyn hynny, ei ddinistrio yn unol â phrotocolau'r Brifysgol a deddfwriaeth diogelu data sy'n berthnasol.

Ni fydd y Briyfsgol yn gwerthu nac yn rhannu eich data i drydydd partïon at eu dibenion masnachol.

Mae'n ofynnol i holl Brifysgolion y DU ddarparu manylion cyswllt graddedigion diweddar i HESA (yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch) er mwyn cynnal arolwg o hynt graddedigion.

**Cadw eich data'n gyfredol**

Bydd y Brifysgol yn diweddaru'r data sydd gennym arnoch chi o bryd i'w gilydd. Er enghraifft, os ydych yn darparu manylion cyswllt newydd i ni neu'n newid eich manylion ar wefannau a reolir gan y Brifysgol megis ein system Cyn-fyfyrwyr neu safleoedd cyfryngau cymdeithasol megis LinkedIn neu Instagram.

**Am ba hyd y bydddwn yn cadw eich data?**

Rydym yn ystyried bod dod yn aelod o'r Brifysgol ac yn rhan o'r gymuned Cyn-fyfyrwyr yn berthynas gydol oes. Gan hynny, bydd y Brifysgol yn ceisio cadw eich data personol cyhyd ag y mae rheswm cyfreithlon dros wneud hynny, oni bai eich bod yn gwneud cais am iddo gael ei ddiddymu o'n cofnodion. Cewch ofyn i ni ddileu eich data personol ar unrhyw adeg drwy gysylltu â Swyddog Diogelu Data y Brifysgol ar DPO@wrexham.ac.uk.

Os ydych chi'n penderfynu nad ydych am dderbyn cyfathrebiadau gan y Brifysgol mwyach, dylech fod yn ymwybodol y bydd angen i ni barhau i gadw ychydig bach iawn o ddata personol fel y gallwn gadw cofnod eich bod wedi gofyn i ni beidio â chysylltu â chi.

Os nad ydych yn aelod o Gymuned Cyn-fyfyrwyr y Brifysgol, bydd unrhyw ddata personol a ddelir yn cael ei ddileu os na fyddwch yn ymateb i'n hymgeisiau i gysylltu â chi, neu os byddwch yn datgan nad oes gennych unrhyw ddiddordeb mewn ffurfio perthynas â'r Brifysgol.

**Beth yw eich hawliau fel testun data?**

O dan ddeddfwriaeth Diogelu Data, mae gennych nifer o hawliau o safbwynt eich data, yn ddibynnol ar y sail gyfreithiol ar gyfer prosesu'r data hwnnw. Gan hynny, mae gennych:

Prifysgol Wrecsam
Wrexham University

- **Hawl i Wrthwynebu** - lle mae'r Brifysgol wedi defnyddio caniatâd fel sail gyfreithiol ar gyfer prosesu;
- **Hawl i gael Gwybod** - ynghylch sut mae'r Brifysgol yn casglu ac yn defnyddio eich data personol;
- **Hawl i gael Mynediad** - gallu cael mynediad at ddata personol mae'r Brifysgol yn ei ddal amdanoch chi;
- **Hawl i Gywiro** - cywiro unrhyw wallau yn eich data personol a ddelir gennym;
- **Hawl i Ddileu**- i gael eich anghofio drwy wneud cais i gael gwaredu eich manylion oddi ar ein systemau;
- **Hawl i Gyfyngu ar Brosesu** - cyfyngu ar brosesu eich data tra mae'n cael ei gywiro neu ei brosesu;
- **Hawl i Hygludedd Data** - i gludo eich data mewn fformat y gall peiriant ei ddarllen ac a ddefnyddir yn eang;
- **Hawliau sy'n gysylltiedig â Gwneud Penderfyniadau Awtomataidd** - gwrthwynebu mathau penodol o brosesu a ddefnyddir gan y Brifysgol, gan gynnwys proffilio, marchnata uniongyrchol a gwneud penderfyniadau awtomataidd.

**Pryderon a manylion cyswllt**

Os oes gennych unrhyw bryderon ynghylch y ffordd mae eich data personol yn cael ei brosesu neu os oes gennych ymholiad ynghylch yr hysbysiad hwn, cysylltwch â'n Swyddog Diogelu Data ar DPO@wrexham.ac.uk

Ein cyfeiriad post cyffredinol yw Prifysgol Wrecsam, Ffordd yr Wyddgrug, Wrecsam, LL11 2AW

Gallwch hefyd fynegi pryderon neu gyflwyno cwynion i Swyddfa'r Comisiynydd Gwyboaeth, drwy gysylltu gan ddefnyddio'r manylion isod:

Swyddfa'r Comisiynydd
Gwybodaeth, Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Ffôn: 0303 123 1113 Gwefan:
www.ico.org.uk

**Ym mhle y gallaf gael mwy o wybodaeth?**

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch y polisi hwn, cysylltwch â DPO@wrexham.ac.uk

Byddwn yn adolygu'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn rheolaidd a byddwn yn rhannu unrhyw

ddiweddariadau ar y dudalen we hon. Cafodd yr hysbysiad preifatrwydd hwn ei ddiweddaru ddiwethaf ar

17/03/2026.